Cyflwyniad ar gyfer Athrawon

Croeso i *Citaware* – pecyn briffio llawn syniadau rhad ac am ddim ar gyfer cyflwyno'r Undeb Ewropeaidd i ddisgyblion a myfyrwyr 11–18 oed.

Yn hytrach na rhoi ffeithiau a ffigyrau manwl, rydym wedi dewis ambell i faes allweddol yng ngweithgareddau'r UE a dwyn sylw at botensial y pynciau hyn i annog trafod a dadlau agored yn eich ystafell ddosbarth.

Strwythur y pecyn

Mae pedair Taflen Weithgaredd. Mae pob un yn edrych yn fanwl ar faes sy'n berthnasol i'r UE:

1. **Hawliau dynol a chrefydd**
2. **Cynnal Ewrop a'r byd**
3. **Cydweithio'n rhyngwladol**
4. **Dinasyddion Ewrop**

O fewn pob maes, rydym yn dwyn sylw at dri phwnc a allai fod o ddiddordeb i ieuenctid. Mae pob pwnc yn cynnwys y canlynol:

Grŵp oedran a awgrymir	Cyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 neu ôl-16; mae rhai gweithgareddau yn addas ar gyfer mwy nag un grŵp oedran
Gwybodaeth gyffredinol	Ffeithiau sylfaenol i'ch cynorthwyo chi a'ch disgyblion wrth ddeall y pwnc
Gweithgaredd	Un neu fwy o weithgareddau ystafell-ddosbarth i gyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion
Pwyntiau trafod	Annog meddwl yn feirniadol a thrafodaeth bellach am Ewrop

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Mae pob Taflen Weithgaredd yn cynnwys enghreifftiau o gysylltiadau penodol rhwng Citaware a'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a manylebau pynciau yng Nghymru. Mae'r pecyn yn ei gyfanrwydd hefyd yn helpu i gwrdd â'r gofynion canlynol:

ABCh – Cyfnod Allweddol 4

Sgiliau – dylai disgyblion fedru…

- Gyfathrebu'n effeithiol eu teimladau a'u barnau
- Gwerthfawrogi, myfyrio ar safbwynt rhywun arall a'i werthuso'n feirniadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae Citaware yn ategu'r Agwedd Gymunedol yn ei chyfanrwydd

Y Baccalaureate Cymreig

Cymru, Ewrop a'r Byd

Elfen 1: Materion Gwleidyddol – materion allweddol 1 & 2
Elfen 2: Sialensau Cymdeithasol ac Ymatebion – mater allweddol 1
Elfen 3: Newid Economaidd a Thechnolegol – mater allweddol 1

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Elfen 3: Hawliau a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd gweithgar
Elfen 4: Deall materion datblygu

Gwaith pellach

Prosiect ar y cyd yw Citaware a drefnir gan y tri chorff canlynol ac a noddir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n bosibl y bydd ein gweithgareddau eraill hefyd o ddiddordeb i chithau a'ch disgyblion.

Mae CEWC-Cymru yn trefnu cystadlaethau **Senedd Ieuenctid Ewropeaidd** ar gyfer pobl ifainc 15-17 oed, ac yn trefnu gweithdai ystafell ddosbarth ar faterion Ewropeaidd a byd-eang. Gweler **www.cewc-cymru.org.uk** am ragor o wybodaeth.

Beth am ymweld â **www.europaworld.org.uk**, y papur newydd ar-lein rhad ac am ddim sy'n trafod datblygu rhyngwladol o safbwynt Ewropeaidd.

Mae'r Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol yn trefnu digwyddiadau ar faterion Ewropeaidd a byd-eang. Gweler **www.wcia.org.uk** am y wybodaeth ddiweddaraf.

Gwefannau defnyddiol

Os ydych am wybod mwy am bynciau Citaware, neu am ddod o hyd i wybodaeth fanylach, mae'r gwefannau canlynol yn fannau cychwyn defnyddiol:

Cyffredinol

www.citaware.org.uk
Mae'n cynnwys fersiynau y medrir eu lawrlwytho o'n Taflenni Gweithgaredd Citaware a chanllaw sylfaenol i'r UE gan Peter Sain-ley-Berry

europa.eu/abc/12lessons/index_en.htm
Ewrop mewn 12 Gwers

www.euabc.com
Geiriadur o eiriau sy'n berthnasol i'r UE

www.eurodesk.org.uk/schoolsandcolleges
Canolfan adnoddau Ewropeaidd ar gyfer ysgolion a cholegau

www.youthinformation.com/Templates/Internal.asp?NodeID=90089
Gwybodaeth am Ewrop ar gyfer ieuenctid

www.europeanchildrensnetwork.org
Hyrwyddo hawliau plant yn yr UE

www.ycponline.co.uk
Canllaw i'r gyfraith ar gyfer dinasyddion ifainc – mae'n cynnwys adran ar yr UE

news.bbc.co.uk/1/hi/in_depth/europe/2003/inside_europe/default.stm
Canllaw 'Inside Europe' y BBC

www.coe.int/T/E/Com/About_Coe/Brochures/fichedh_IndexE.asp
Taflenni ffeithiau am y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Taflen Weithgaredd 1 – Hawliau dynol a chrefydd

(a) Triniaeth annynol?

www.amnesty.org/torture
Ymgyrch Amnest Rhyngwladol yn erbyn arteithio

www.apt.ch
Association for the Prevention of Torture (Y Gymdeithas er Atal Arteithio)

www.cpt.coe.int/en
European Committee for the Prevention of Torture (Y Pwyllgor Ewropeaidd er Atal Arteithio)

(b) Lle crefydd

www.iarf.net
International Association for Religious Freedom (Y Gymdeithas Ryngwladol dros Ryddid Crefyddol)

www.iheu.org
International Humanist and Ethical Union (Yr Undeb Dyneiddiol a Moesegol Rhyngwladol)

news.bbc.co.uk/1/hi/world/europe/3459963.stm
8 gwahanol farn ar y ddadl ynghylch pensgarffiau yn Ffrainc

(c) A ddylai Twrci ymuno â'r clwb?

en.wikipedia.org
Chwiliwch dan "Accession of Turkey to EU" am hanes llawn

news.bbc.co.uk/1/hi/world/europe/4305656.stm
Take the Turkey Test!

www.etuc.org/r/557
European Trade Union Confederation – Turkey (Cydffederasiwn Undebau Llafur Ewrop – Twrci)

Taflen Weithgaredd 2 – Cynnal Ewrop a'r Byd

(a) Ydy plastig yn ffantastig?

ec.europa.eu/environment/waste
Gweddalenau'r Comisiwn Ewropeaidd ar wastraff

www.carrierbagtax.com
Carrier Bag Consortium (yn erbyn trethu bagiau plastig)

www.defra.gov.uk/ENVIRONMENT/WASTE/topics/plastics.htm
Polisi llywodraeth y DG ar blastig

(b) Allyriadau carbon

www.ngfl-cymru.org.uk/climatechange
Newidiadau yn yr hinsawdd yng Nghymru – adnoddau dysgu

www.ipcc.ch
Intergovernmental Panel on Climate Change (Y Panel Rhynglywodraethol ar Newidiadau yn yr Hinsawdd)

www.newscientist.com/channel/earth/climate-change
'Arweiniad arbenigol' y *New Scientist* i newidiadau yn yr hinsawdd

(c) Cyflwyno cynaliadwyedd

www.cynnalcymru.org
Sustainable Development Forum for Wales (Fforwm Datblygu Cynaliadwy Cymru)

www.insnet.org/ins_links.rxml
Cronfa ddata byd-eang o ddolenni'n ymwneud â chynaliadwyedd

www.wwflearning.org.uk
Adnoddau o'r Gronfa Natur Fyd-eang (Worldwide Fund for Nature)

Taflen Weithgaredd 3 – Cydweithio rhyngwladol

(a) Cydweithredu - pam?

europa.eu/abc/history/index_en.htm
Hanes yr Undeb Ewropeaidd

www.democracyineurope.com
Llwyfan gwrth-UE

www.euromove.org.uk
Corff â'i bencadlys yn y DG sydd o blaid yr UE

(b) Yr UE – yn rhoi terfyn ar dlodi?

ec.europa.eu/development/index_en.htm
Dalennau'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddatblygiad rhyngwladol

www.oxfam.org.uk/coolplanet/milkingit/index.htm
Adnodd sy'n helpu ieuenctid i ddeall pynciau sy'n ymwneud â masnach byd

www.unmillenniumproject.org/index.htm
Prosiect gwrth-dlodi; mae'r nodau'n cynnwys cyfarfod â'r nod o 0.7%

(c) Diogelu ac amddiffyn

www.consilium.europa.eu/cms3_fo/showPage.asp?id=261&lang=en&mode=g
Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Ewrop (European Security and Defence Policy)

www.caat.org.uk/issues/european-conduct.php
Tudalennau perthnasol o'r Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau (Campaign Against Arms Trade)

www.euractiv.com/en/security
Newyddion a gwybodaeth bellach am yr UE, diogelwch, amddiffyn a therfysgaeth

Taflen Weithgaredd 4 – Dinasyddion Ewrop

(a) A ddylai estroniaid bleidleisio?

www.immigrantvoting.org
Hawliau pleidleisio mewnfudwyr dros y byd i gyd

www.migrantwatch.org
Migrants Rights International (Hawliau Mewnfudwyr yn Rhyngwladol)

www.migrationwatchuk.org
Sefydliad sy'n pryderu ynghylch mewnfudo i'r DG

(b) Gwir ddemocratiaeth?

ec.europa.eu/youreurope/nav/en/citizens/index.html
Gwybodaeth am hawliau a chyfleoedd dinasyddion yr UE

euabc.com/index.phtml?word_id=276
'Dyled ddemocrataidd' yr UE

ec.europa.eu/yourvoice/index_en.htm
Eich Llais Chi yn Ewrop (Your Voice in Europe) – ffyrdd o leisio eich barn i'r UE

(c) Cyfansoddiad i Ewrop?

www.democracy-international.org
Corff sy'n ceisio Confensiwn Ewropeaidd newydd

europa.eu/constitution/futurum/index_en.htm
Trafodwch ddyfodol yr Undeb Ewropeaidd

news.bbc.co.uk/1/hi/world/europe/4596005.stm
Y Cyfansoddiad Ewropeaidd – beth sy'n digwydd nesaf?

Gwybodaeth gefndir: sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd

Undeb rhynglywodraethol o 25 gwlad yw'r UE. Mae'n gweithio trwy gyfrwng nifer o sefydliadau i greu ac i gymhwyso ei ddeddfau a'i bolisïau. Dyma'r rhai pwysicaf:

	BETH YW HWN?	BETH MAE'N EI WNEUD?
Senedd Ewrop	**O ran yr UE mae'n cyfateb i Dŷ'r Cyffredin neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru.** Etholir 732 Aelod o Senedd Ewrop (ASEau) yn uniongyrchol gan ddinasyddion yr UE i gynrychioli eu buddiannau. Cynhelir etholiadau bob pum mlynedd. Mae 78 ASE yn cynrychioli'r DG, gyda 4 dros Gymru.	• Mae'n derbyn cyfreithiau Ewropeaidd (ar y cyd â Chyngor yr Undeb Ewropeaidd mewn ambell i achos) • Yn goruchwylio sefydliadau Ewropeaidd eraill (e.e. cymeradwyo penodiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd) • Yn pennu cyllideb yr UE (ar y cyd â Chyngor yr Undeb Ewropeaidd)
Cyngor yr Undeb Ewropeaidd	**Y prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau yn yr UE, a adwaenir hefyd fel Cyngor y Gweinidogion.** Daw un gweinidog o bob un o 25 llywodraeth genedlaethol yr UE i gyfarfodydd y Cyngor. Mae pob cyfarfod yn cynnwys gwahanol weinidogion, gan ddibynnu ar y pwnc a drafodir gan y Cyngor – e.e. mewn cyfarfod cyllid, bydd Canghellor Trysorlys y DG yn bresennol.	• Mae'n derbyn cyfreithiau Ewropeaidd (ar y cyd â'r Senedd mewn ambell i achos) • Yn cydlynu polisïau economaidd cyffredinol yr aelod-wladwriaethau • Yn cadarnhau'n derfynol gytundebau rhwng yr UE a gwledydd/cyrff eraill • Yn pennu cyllideb yr UE (ar y cyd â'r Senedd) • Yn datblygu Polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin yr UE • Yn helpu lluoedd heddlu a llysoedd cenedlaethol i gydweithio
Y Comisiwn Ewropeaidd	**Corff 'gweithredol' yr UE, lle mae'r rhan fwyaf o'i staff yn gweithio.** Mae'r Comisiwn yn rhedeg gwaith beunyddiol yr UE, gan helpu i ddrafftio cyfreithiau'r UE a gweithredu ei benderfyniadau. Mae'n annibynnol ar lywodraethau cenedlaethol, a daw ei staff o weision sifil rhyngwladol o bob un o'r aelod-wladwriaethau.	• Yn cynnig cyfreithiau i'r Senedd a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd • Yn rheoli ac yn gweithredu polisïau a chyllideb yr UE • Yn gweithredu cyfraith Ewropeaidd (ar y cyd â'r Llys Cyfiawnder) • Yn cynrychioli'r UE ar lwyfan rhyngwladol (e.e. negodi cytundebau rhwng yr UE a gwledydd eraill)
Cyngor Ewrop	**Cyfarfod o benaethiaid llywodraethau (Prif Weinidogion neu Arlywyddion) pob un o 25 aelod-wladwriaeth yr UE, ynghyd â Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd.** Ceir trafodaethau a phenderfyniadau ar faterion cyfoes o bwys a chyfeiriad yr UE yn gyffredinol. Cynhelir y rhan fwyaf o'i gyfarfodydd ym Mrwsel.	• Dyma sy'n gyrru gweithgareddau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yr UE • Yn cynnig fforwm i drafod gwleidyddiaeth ar y lefel uchaf un yn ystod argyfwng
Sefydliadau eraill	**Llys Cyfiawnder Ewrop** **Llys Archwilwyr Ewrop** **Y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol** **Pwyllgor Rhanbarthol Ewrop**	Yn sicrhau bod cyfreithiau'r UE yn deg, gan gynghori gwledydd ar sut i'w defnyddio, a mynd i'r afael â'r rheiny sydd wedi eu cyhuddo o dorri'r gyfraith Yn arolygu cyllid yr UE Modd i gyflogwyr, undebau llafur a chyrff eraill i ddylanwadu ar yr UE Yn fodd i lywodraethau lleol a rhanbarthol leisio barn